# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0526 a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Hydref 2008

**At Mick Bates:**

Yn y cyfarfod llawn ar 24 Medi buoch yn holi am gynlluniau i egluro'r rheoliadau ynghylch gwastraff, yn enwedig o ran diffinio gwastraff er mwyn caniatáu defnydd synhwyrol ar glycerol sy'n cael ei gynhyrchu yn sgil gwneud biodiesel o olew llysiau sydd wedi'i ddefnyddio.

Ym mis Ebrill eleni, cytunais y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y cyd â Defra er mwyn llunio canllawiau ar ddiffinio gwastraff. Y nod yw diweddaru'r canllawiau a luniwyd yn wreiddiol ym 1994 ac esbonio'r egwyddorion sy'n deillio o gyfraith achosion Ewrop a cheisio sicrhau bod deddfwriaeth yr UE yn cael ei gweithredu mewn modd nad yw'n gosod beichiau rheoleiddio diangen. Bu ychydig o oedi cyn cynnal yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau y byddai unrhyw oblygiadau a fyddai'n deillio o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Disgwyliaf gynnal ymgynghoriad ar ganllawiau yn ddiweddarach eleni.

Mae'r diffiniad yn bwysig gan fod dosbarthu sylweddau fel gwastraff yn sail i'r gwaith o lunio polisi ar reoli gwastraff ac o ddefnyddio dulliau rheoleiddio i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl. Mae'n faes cyfreithiol cymhleth, gan ei fod yn seiliedig ar fwriad cynhyrchydd neu ar ofyniad i waredu deunydd.

Mae unigolion, busnesau a sefydliadau eraill yn penderfynu yn ddyddiol a yw deunydd yn wastraff ai peidio. Gan amlaf, mae'r penderfyniad yn un syml. Bydd y canllawiau o gymorth pan fo'r penderfyniad yn anos, ee lle bo gan y sylwedd neu'r gwrthrych werth neu ddefnydd posibl neu lle mae angen penderfynu a yw'r gwastraff wedi'i adfer yn llwyr ac wedi peidio â bod yn wastraff. Mae'n bwysig deall, fodd bynnag, fod y diffiniad o wastraff yn seiliedig ar Gyfarwyddebau Ewropeaidd sydd wedi'u dehongli gan Lys Cyfiawnderau Ewrop a dyfarniadau eraill a wnaed yn llysoedd y DU. Nid oes modd i Gymru ddiystyru cyfraith achosion a rhoi dehongliad er mwyn caniatáu defnyddio gwastraff 'yn synhwyrol'. Felly, er y bydd y canllawiau'n egluro'r rheoliadau, ni fyddant yn golygu, o reidrwydd, y caniateir llosgi deunydd a ddiffiniwyd yn wastraff yn ôl y gyfraith er mwyn cynhyrchu ynni.

Nid yw hyn yn atal deunydd gwastraff rhag cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried wrth adolygu Strategaeth Ynni Cymru. Fodd bynnag, pan fyddant yn cael eu defnyddio yn y modd hwn, bydd angen dulliau rheoleiddio priodol er mwyn diogelu'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.

Yn ogystal, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), y diwydiant a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cyfres o Brotocolau Ansawdd a fydd yn lleddfu'r baich rheoleiddio sy'n gysylltiedig ag adfer deunyddiau crai o wastraff. Mae Protocol Ansawdd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer cynhyrchu cynnyrch gan ddefnyddio math arbennig o wastraff. Bydd y rheoleiddiwr yn ystyried bod cydymffurfio â'r meini prawf hyn yn ddigon i sicrhau bod modd defnyddio'r cynnyrch a adferwyd heb beryglu iechyd pobl na'r amgylchedd ac, o'r herwydd, ni fydd angen dulliau rheoleiddio gwastraff.

Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd am brotocol ynghylch biodiesel a gynhyrchwyd o olew llysiau gwastraff. Er mai dim ond mewnbwn olew llysiau gwastraff i'r broses sydd dan sylw yn hytrach na sgil-gynhyrchion, deallaf fod y grŵp cynghori technegol

yn cydnabod bod gweddillion Glycerol a Methanol yn rhan anochel o’r broses ac yn argymell bod angen gwneud rhagor o waith i benderfynu sut y gellir eu prosesu i’r fath raddau fel nad ydynt yn ddarostyngedig bellach i ddulliau rheoleiddio gwastraff.